# GWNEWCH EICH HUN

**STRAEON DONIOL!**



## GWNEUD EICH CYFANSODDIAD CYNTAF

Gall ddechrau eich stori gyntaf godi ychydig o ofn, felly rydyn ni wedi ei wneud fel cyfansoddiad - fel rysáit, neu restr siopa ar gyfer eich stori.

Dylai fod tair rhan i'ch cyfansoddiad - ond does dim rhaid i ni eu galw nhw'n ddechrau, canol a diwedd - gallwch eu galw nhw'n beth bynnag rydych chi eisiau! Bydd cael strwythur yn help mawr i symud eich stori yn ei blaen oherwydd bydd yn rhoi syniad i chi ble mae pethau'n mynd - fel arall, gall fod fel mynd mewn car a gyrru heb wybod ble - gallai fod yn hwyl...ond efallai mai mynd ar goll fyddwch chi!

**1**

**DECHRAU**

Gadael
neu'r
Bore

**2**

**CANOL**

Y Daith
neu
Ganol Dydd

**3**

**DIWEDD**

Adre
neu'r
Nos



GWNEWCH BETHAU EICH FFORDD CHI
Dewiswch ffordd o adrodd eich stori sy'n eich gwneud CHI'N hapus



Mae LLWYTH o apiau gwych i fod yn greadigol erbyn hyn. Ydych chi wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio PROCREATE neu STOP MOTION STUDIO?



Dewch o hyd i ffordd sy'n addas i chi - hyd yn oed os mai dim ond siarad â'ch cath yn y bath yw e. Peidiwch â bod ofn methu - mae'n iawn rhoi cynnig ar bethau a bod pethau'n mynd o'i le!

# CYNHWYNSION EICH STORY

Gall fod yn ddefnyddiol iawn ysgrifennu rhestr o gynhwysion ar gyfer eich stori cyn i chi ddechrau...
Nawr bod strwythur yn ei le, mae angen i chi lenwi'ch stori â syniadau - cymeriadau, llefydd, gwrthrychau.




**WRITE IT DOWN!**

Ffordd wych o wneud hyn yw gêm o'r enw 'Glynu neu Dwistio' lle rydych chi'n ysgrifennu syniadau ar ddarnau unigol o bapur ac yn eu dewis ar hap (gallwch 'lynu' neu 'dwistio' gydag unrhyw un rydych chi'n ei hoffi!). Ceisiwch ddewis 3 pheth ar hap i weld a allwch chi eu clymu at ei gilydd mewn stori!

Dyma rai o'n syniadau ni:
**Llefydd:** Y Lleuad, y gegin, disco, Telford, sedd gefn Ford Cortina, Splott, ogof, rhywle amhleserus, ar droed mynydd, pwll nofio lle mae'r dwr ychydig yn oerach na'r disgwyl, realiti amgen lle mae gan bobl wynebau lle dylai eu penelinoedd fod ac i'r gwrthwyneb, Ipswich, gêm bêl-droed i blant, siop goffi â masnachfraint go iawn, asiantaeth chwilio am gariad ar wib a thŷ mewn coeden.

**Cymeriadau:** Ysbïwr, gofodwr, wiwer surbwch, perth wedi'i chuddio fel person, person wedi'i guddio fel perth, 3 hwyaden mewn cot, dyn porffor, cymeriad ceffyl digyswllt, arweinydd hynod anghymwys ac aneffeithiol, llwynog, sgwâr, deinosor ag anhwylder personoliaeth.

**Pethau:** Dognau brys, set gwyddbwyll, nodyn cyfrinachol, arian sbâr, offer garddio, pamffled am hegemoni, peli disgo, mellt, tobogan, huddygl, dreigiau go iawn, cwrw, y datguddiad, robotiaid wedi'u gwisgo fel bodau dynol, llygod yn marchogaeth moch cwta, 2 feic wedi'u clymu at ei gilydd, mins, diflastod, bisgedi.

"Mae celf wastad ar ei orau pan mae'n fynegiant go iawn o bwy ydych chi" - unknown, 2

**RHOWCH GYNNIG ARALL ARNI!**

Ar ôl i chi wneud eich cyfansoddiad cyntaf - efallai na fyddwch chi'n hoff ohono AC MAE HYNNY'N HOLLOL IAWN.

Mae rhoi cynnig ar bethau yn golygu nad ydyn nhw'n gweithio o bryd i'w gilydd - y pwrpas yw mwynhau'r broses. Mae creadigrwydd yn gweithio orau pan nad oes pwysau ac mae'n hwyl. Mae'n swnio'n wallgof, ond y tric yw gadael i'ch isymwybod wneud y rhan fwyaf o'r gwaith caled: gadewch i'ch meddwl grwydro...byddech chi'n rhyfeddu faint o'ch syniadau gorau sy'n dod pan na fyddwch chi'n meddwl amdano mewn gwirionedd, ac wrthi'n gwneud rhywbeth arall - fel golchi llestri neu gael cawod!

